**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

11 Hydref 2024

Annwyl Jack,

SL(6)516 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024

Gwnaethom ystyried eich ymateb i'n hadroddiad ar y rheoliadau uchod ar 7 Hydref 2024.

Nododd ein hadroddiad wyth pwynt adrodd technegol a oedd yn amlygu problemau gyda drafftio'r Rheoliadau. Yn gyffredinol, nid ydym yn ystyried bod yr ymateb yn foddhaol, yn enwedig mewn perthynas â phwyntiau adrodd 4, 5 a 6.

Mae pwynt adrodd 4 yn nodi problem gyda drafftio'r testun ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Er bod y Llywodraeth yn derbyn y pwynt a godwn, mae'n nodi y "gellir mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch ynghylch y pwynt yn ymarferol". Yn ein barn ni, nid yw dull gweithredu o'r fath y ffordd orau o ymdrin â'r mater, ac mae'n anghyson ag arfer deddfwriaethol da: y rheoliadau sy'n pennu'r gyfraith ac nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol cael datrysiad drwy arfer er mwyn deall ei hystyr yn glir.

Roedd pwynt adrodd 5 yn nodi problem gyda'r diffiniad o 'gais cydredol' yn yr addasiadau a wneir gan baragraff 6 o Atodlen 4. Mae'r term hwn wedi'i ddiffinio at ddibenion rheoliad 8 a addaswyd, ond fe'i defnyddir hefyd yn rheoliad 6 a addaswyd. Er ei bod yn derbyn y pwynt hwn, mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n glir yn y cyd-destun, sef y bwriedir i'r term gael yr un ystyr yn y ddau reoliad a addaswyd. Rydym yn anghytuno: os yw term yn cael ei ddiffinio at ddibenion un rheoliad, yna bydd yn awgrymu i'r rhai sy'n dehongli'r ddeddfwriaeth hon, os defnyddir yr un term mewn rheoliad gwahanol, y bwriedir iddo gael ystyr gwahanol.

Yn olaf, ar bwynt adrodd 6, gwnaethom nodi bod lleoliad diwygiad a wneir gan yr addasiadau ym mharagraff 6 o Atodlen 4 yn aneglur. Unwaith eto, rydym yn anghytuno ag ymateb y Llywodraeth,

sydd, er yn derbyn y pwynt, yn awgrymu y byddai'r effaith yn ddigon clir. Yn ein barn ni, mae risg amlwg o ddryswch, yn anad dim oherwydd os bydd y diwygiad yn gymwys fel y dywed y Llywodraeth, bydd dau baragraff â'r rhif '(4)' yn y rheoliad a addaswyd, a chredwn y byddai'n achosi dryswch diangen.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Llywodraeth egluro pam nad yw'n bwriadu diwygio'r rheoliadau dan sylw i ddileu'r posibilrwydd o ddryswch sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac rydym yn ei nodi uchod ac yn ein hadroddiad.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb erbyn 31 Hydref 2024.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd